# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 258(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol

(45 munud)

## 5 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2020

(15 munud)

**NDM7258** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2020.

**Dogfennau Atodol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 6 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2020-2021

(120 munud)

**NDM7259** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 16 Rhagfyr 2019.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## 7 Dadl: Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

(60 munud)

**NDM7260** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod adroddiad hanesyddol y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a'r corff o dystiolaeth na welwyd mo'i debyg o'r blaen a gynhyrchwyd ganddo, ac yn diolch i aelodau a staff y Comisiwn am eu gwaith;

2. Yn cydnabod ymroddiad yr unigolion a'r sefydliadau lawer sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, a'u hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd, ond yn nodi hefyd y siom bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad canolog nad yw eu system gyfiawnder yn diwallu anghenion pobl Cymru yn ddigonol;

3. Yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhellion hynny sydd o fewn ei chymhwysedd ar hyn o bryd a gweithio gyda chyrff eraill i weithredu ar argymhellion sy'n gyfrifoldeb arnynt hwythau;

4. Yn nodi prif ganfyddiad y Comisiwn fod rhaid penderfynu ynghylch polisi a'i oruchwylio, yng Nghymru, os dymunir gweld gwahaniaeth parhaus yn y modd y cyflawnir cyfiawnder yng Nghymru; a

5. Yn gefnogol o ddatganoli cyfiawnder a phlismona, wedi'u cyllido'n llawn er mwyn sicrhau bod gweithrediaeth y system gyfiawnder yn cyd-fynd â'r amcanion polisi ehangach i Gymru y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad hwn.

Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac yn cydnabod yr ymroddiad a'r ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus a ddangosir gan y nifer fawr o bobl a sefydliadau sy'n gweithio yn y system gyfiawnder.

2. Yn gresynu wrth fethiannau yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, lle mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau allweddol.

3. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu gwasanaethau rheoli troseddwyr yng Nghymru sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru.

4. Yn nodi bod yn rhaid i natur drawsffiniol gweithgarwch troseddol fod yn ganolog i weithredu cyfiawnder a phlismona yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Dileu pwyntiau 3, 4 a 5 a rhoi yn eu lle:

Yn gwrthwynebu datganoli cyfiawnder a phlismona.

Yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer plismona.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r cyllid i wella'r system gyfiawnder.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020